

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn gerbron o dan Reol Sefydlog (“RhS”) S29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid cyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac y ceir gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os gwneir darpariaeth mewn perthynas â Chymru mewn Bil Seneddol y DU at ddiben sy’n dod o fewn, neu sy’n addasu, cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.
2. Cyflwynwyd y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth (y “Bil”) yn Nhŷr Cyffredin ar 25 Mehefin 2014. Gellir gweld y Bil yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2014-15/smallbusinessenterpriseandemployment.html>

Crynodeb o’r Bil a’i amcanion polisi

3. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (“BIS”). Prif amcanion polisi BIS ar gyfer y Bil yw agor cyfleoedd newydd i ar gyfer cwmnïau bach, i gystadlu, cael cyllid i greu swyddi, tyfu, arloesi ac allforio.
4. Mae’r Bil yn gwneud darpariaeth ynglŷn â’r canlynol:
 - gwella’r mynediad at gyllid i fusnesau ac unigolion;
 - darpariaethau rheoleiddiol mewn perthynas â busnes a chyrrff gwirfoddol a chymunedol penodol;
 - arfer swyddogaethau caffael gan awdurdodau cyhoeddus penodol;
 - creu Cod Tafarndai a Dyfarnwr ar gyfer rheoleiddio trafodion rhwng busnesau sy’n berchnogion tafarndai a thenantiaid eu tafarndai clwm;
 - rheoleiddio darparu gofal plant, a darpariaeth ynghylch gwybodaeth am werthuso addysg;
 - rheoleiddio cwmnïau;
 - gofynion ynglŷn â ffeilio gan gwmnïau;
 - anghymhwyso ar gyfer penodiadau mewn perthynas â chwmnïau; a darpariaeth ynghylch ansolfedd;
 - y gyfraith ynglŷn â chyflogaeth; a dibenion cysylltiedig.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

5. I hwyluso cyfeirio atynt, restrir isod y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer, yn y drefn y maent yn ymddangos yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, ynghyd â disgrifiad o bob darpariaeth yn ei thro.

Rhan 1 – Mynediad at gyllid	Cymal 9	Allforion
Rhan 6 – Addysg a hyfforddiant	Cymalau 67-69	Gwerthuso addysg

Rhan 1 – Mynediad at gyllid.

Cymal 9 – Allforion – Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 1 o Ddeddf Gwarantïau Allforio a Buddsoddi 1991

6. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn arfer pwerau o dan Ddeddf Gwarantïau Allforio a Buddsoddi 1991 (DGAB) trwy Asiantaeth Cyllid Allforio'r DU (UKEF)¹, i ddarparu cymorth ar gyfer allforion y DU a buddsoddiadau'r DU mewn gwledydd tramor.
7. UKEF yw Asiantaeth Cyllid Allforio swyddogol y DU. Darperir y cymorth allforio yn bennaf trwy ddarparu diogelwch rhag risg, ar ffurf:
- contractau yswiriant a ddyroddir i allforwyr rhag y risg na chânt eu talu o dan gontractau cyflenwi gyda phrynwyr tramor, ac i rai sy'n buddsoddi mewn gwledydd tramor rhag risgiau gwleidyddol penodol; a
 - gwarantïau i fanciau rhag y risg nad ad-delir benthyciadau a roddant i brynwyr/benthycwyr tramor i gyllido pryniant cyflenwadau gan allforwyr o'r DU; benthyciadau o gyfalaf gweithio i allforwyr a galwadau o dan fondiau contract, a ddyroddir i brynwyr tramor mewn perthynas â chontractau gydag allforwyr o'r DU.
8. Byddai'r ddarpariaeth hon yn ehangu pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i ddarparu cymorth ariannol i allforwyr ac i gadwynau cyflenwi ar gyfer allforio yn y DU.
9. Bydd y pwerau ehangach yn sicrhau y gall allforwyr a darpar allforwyr yn y DU gael cymorth tebyg i'r hyn sydd ar gael i'w cystadleuwyr tramor.
10. Bydd y ddarpariaeth hefyd yn rhoi i UKEF:
- gallu mwy cyffredinol i gynorthwyo a chefnogi busnesau yn y DU sy'n ymwneud, neu'n dymuno ymwneud ag allforio neu gadwynau cyflenwi ar gyfer allforio; er enghraifft drwy warantu cyfleusterau cyfalaf gweithio cyffredinol neu drwy ddarparu gwybodaeth neu gyngor;
 - y gallu i gynorthwyo allforion o hawliau eiddo deallusol ac asedau anniriaethol eraill;

¹ Mae'r Adran Gwarantïau Credydau Allforio yn gweithredu o dan yr enw "Cyllid Allforio'r DU" ("UK Export Finance (UKEF)").

- gwell hyblygrwydd i gynorthwyo allforion o'r DU, yn enwedig pan fo'r cadwynau contractio neu'r trefniadau cyllido yn gymhleth, neu pan allforir gyda chymorthdaliadau tramor neu trwy gwmnïau cyd-fenter; a
- gwell cyfle i gynorthwyo prosiectau a mentrau busnes tramor, y cyflenwir iddynt, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, nwyddau neu wasanaethau sy'n tarddu o allforwyr yn y DU.

11. Mae'r ddarpariaeth yn gymwys mewn perthynas â Chymru.
12. Nid yw'r darpariaethau hyn yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.
13. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â datblygu economaidd, sy'n cynnwys hyrwyddo busnes a chystadleuaeth o dan baragraff 4 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad o ran y cymalau mynediad at gyllid

14. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ystyried a chymeradwyo'r ddarpariaeth hon yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf addas a chymesur i alluogi cymhwyso'r ddarpariaeth mewn perthynas â Chymru. Bydd hyn yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i fusnesau yng Nghymru o gymharu â gweddill y DU.

Goblygiadau ariannol

15. Nid oes goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i gydsynio i'r ddarpariaeth hon.

Cymalau 67-69 – Gwerthuso addysg

16. Mae'r tri chymal gwerthuso addysg yn amcanu i hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng Gweinidogion Cymru, adrannau Llywodraeth y DU, ysgolion, colegau a chanolfannau asesu eraill. Y nod yw galluogi rhieni a myfyrwyr i wneud dewisiadau mwy gwybodus ynglŷn â chyrchfannau addysg a chyflogaeth; helpu ysgolion i asesu eu gwasanaethau gwybodaeth, cynghori a chyfarwyddo; a rhoi gwybod i'r Llywodraeth pa gymwysterau a chyrsgiau sy'n arwain at gyflogaeth barhaus ac incymau uchel.
17. Mae'r tri chymal yn diwygio'r Deddfau canlynol: Deddf Addysg a Sgiliau 2008; Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009; a Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Cymal 67 - Asesu effeithiolrwydd

Deddf Addysg a Sgiliau 2008

18. Mae cymal 67 yn galluogi rhannu gwybodaeth rhwng Gweinidogion Cymru a phersonau eraill. Er enghraifft, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr, at y diben o asesu effeithiolrwydd addysg neu hyfforddiant. Mae'r cymal hwn yn estyn pŵer sy'n bodoli eisoes i asesu effeithiolrwydd addysg neu hyfforddiant mewn perthynas â phersonau o dan 19 mlwydd oed.
19. Mae'r llwybrau a ddilynir drwy addysg yn bwysig, a gallant arwain at wahaniaethau o ran cyflogadwyedd ac enillion oes gyfan. Er mwyn ffurfio darlun cywir sy'n cysylltu'r hyn a astudir gan bobl ifanc, eu dull o astudio a'u cyrchfannau o ganlyniad i'w dysgu, bydd angen i Weinidogion Cymru gael data perthnasol a dibynadwy, a'r gallu i ddirnad cysylltiadau sy'n darparu tystiolaeth ddilys am hynt myfyrrwyr.
20. Mae Deddf Addysg a Sgiliau 2008 eisoes yn darparu porth deddfwriaethol sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gysylltu data am fyfyrwyr addysg bellach â chofnodion cysylltiedig CThEM ynglŷn â chyflogaeth ac enillion. (Ar hyn o bryd, cesglir data am ganlyniadau Addysg Uwch gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)²). Fodd bynnag, mae angen deddfwriaeth i estyn hyn drwy gynnwys gwybodaeth am fyfyrwyr mewn ysgolion ac addysg uwch. Bydd ehangu'r porth cyfredol, drwy gynnwys data am fyfyrwyr ysgol ac addysg uwch, yn caniatáu i Weinidogion Cymru (a CCAUC, er enghraifft) ddal y data cysylltiedig hyn mewn ffurf ddienw a'u dadansoddi i ddarparu gwybodaeth newydd a gwell am ganlyniadau dysgu, trwy olrhain hynt y myfyrwyr trwy'u haddysg ac ymlaen i'r farchnad lafur.

Cymal 68 - Cymwysterau

Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009

21. Mae cymal 68 yn galluogi person yng Nghymru i rannu gwybodaeth a ddelir ganddo am fyfyrwyr gyda Gweinidogion Cymru, gyda choladwr gwybodaeth neu gyda pherson penodedig, neu berson sy'n dod o fewn categori penodedig o bersonau. Bydd rheoliadau yr pennu'r amgylchiadau pan ganiateir i rannu o'r fath ddigwydd, y math o wybodaeth am fyfyrwyr y caniateir ei rhannu, ac â pha gategorïau o bersonau y caniateir i unrhyw berson rannu gwybodaeth am fyfyrwyr.
22. Mae Gweinidogion Cymru yn cynllunio i gyflwyno cyfres o fesurau cydlynol ar gyfer y sector ôl-16, a fydd yn galluogi dysgwyr a rhieni i wneud penderfyniadau ynghylch dysgu yn y dyfodol gan ddefnyddio gwybodaeth dryloyw ynglŷn â pherfformiad.

² Yr "Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch" ("*Higher Education Statistics Agency (HESA)*") Cynhelir arolygon o gyrchfannau ymadawyr o Addysg Uwch ymhen i) chwe mis (DLHE) a ii) tair blynedd a hanner ar ôl graddio (LDHLE).

23. Bydd y mesurau hyn yn cael eu cydgrynhoi ar sail ymarferiad gwirio data, a fydd yn dibynnu ar allu Gweinidogion Cymru i rannu gwybodaeth ar lefel dysgwyr a fydd yn ymestyn yn ôl i ysgolion a cholegau. Bydd hyn yn golygu darparu ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth gymharol, a fydd yn galluogi ysgolion a cholegau i fonitro'u perfformiad eu hunain, a chymharu eu perfformiad gyferbyn ag eraill.
24. Mae sail gyfreithiol yn bodoli ar gyfer casglu gwybodaeth ar lefel dysgwyr gan y Cyrff Dyfarnu, ac ar gyfer rhannu'r wybodaeth honno drachefn â'r ysgolion ar gyfer ei gwirio cyn cyhoeddi canlyniadau arholiadau allanol a gwybodaeth arall ar y wefan Fy Ysgol Leol. Fodd bynnag, nid oes deddfwriaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ymgymryd â phroses gyffelyb yn achos colegau a chanolfannau asesu eraill. Bwriedir defnyddio'r ddeddfwriaeth hon i sefydlu'r prosesau casglu data a sicrwydd ansawdd a fydd yn sicrhau y cyhoeddir mesurau perfformiad cadarn, a fydd yn sail i benderfyniadau dysgwyr a'u rhieni.

Cymal 69 - Cyrchfannau

Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992

25. Mae cymal 69 yn galluogi Gweinidogion Cymru i rannu gwybodaeth gyda sefydliadau addysg bellach ynglŷn â'u cyn fyfyrwyr, gan gynnwys gwybodaeth am weithgareddau'r myfyrwyr hynny wedi iddynt adael y sefydliad. Bydd rheoliadau'n pennu pa weithgareddau a gynhwysir.
26. Mae Gweinidogion Cymru yn cynllunio i gyflwyno mesur perfformiad cyrchfan a fydd yn darparu gwybodaeth werthfawr am hynt pobl ifanc wedi iddynt adael ysgol neu goleg. Bydd argaeledd y data hyn yn sylfaen i alluogi ysgolion a cholegau i deilwra'u cynnig o gwricwlwm, a'r wybodaeth, cyngor a'r cyfarwyddyd a roddir ganddynt, er mwyn lleihau'r nifer o fyfyrwyr a allai, fel arall, ddiweddu y tu allan i faes addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.
27. Cyn y gall ysgolion a cholegau ddefnyddio'r mesurau cyrchfan i hwyluso hunan-wella, rhaid sicrhau bod data ar lefel myfyrwyr ar gael iddynt. Er bod y ddeddfwriaeth gyfredol yn galluogi Gweinidogion Cymru i rannu data lefel myfyrwyr gydag ysgolion, nid yw'n eu galluogi i rannu data o'r fath gyda cholegau. Bydd y cymal hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi i golegau ac ysgolion yr un math o fynediad at wybodaeth ar lefel myfyrwyr.
28. Mae'r holl ddarpariaethau a restrir uchod yn ymestyn i Gymru, ac yn gymwys o ran Cymru.
29. Nid yw cymal 67 yn cynnwys unrhyw bwerau newydd i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Mae cymal 68(2) yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau. Mae'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'w diddymu drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae cymal 68(3)(b) yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau. Mae'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'w diddymu drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
30. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud ag

addysg, hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol a chorfforol a'r gwasanaeth gyrfaoedd, a hyrwyddo datblygiad a chymhwyso gwybodaeth, o dan baragraff 5 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad

31. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan ei fod yn cynrychioli'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf addas a chymesur i alluogi cymhwyso'r darpariaethau mewn perthynas â Chymru. Oherwydd natur gydgyssylltiedig y systemau gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr, y dull mwyaf effeithiol a phriodol yw mynd ymlaen â darpariaethau'r Bil ar gyfer y ddwy system yr un pryd, yn yr un offeryn deddfwriaethol.

Goblygiadau ariannol

32. Nid oes goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i gydsynio i'r darpariaethau hyn.

Mrs Edwina Hart MBE CStJ AC
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Gorffennaf 2014